# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 27 Hydref 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Walter Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – Cyngr. Ann Williams, Rheinallt Puw a Paul Rowlinson.

Cafwyd eiliad o dawelwch i gofio am y diweddar Cyng. Godfrey Northam a oedd yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor Cymuned am llawer o flynyddoedd. Gweithiodd Godfrey yn ddiflino ar nifer o prosiectau cymunedol, a bydd yn golled enfawr i'w deulu ac i gymuned Dyffryn Ogwen. Y Clerc i ddanfon cerdyn cymdymdeimlad ar ran y Cyngor.

Nodwyd fod y Cyng. Ann Williams yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Walton, ac ei bod yn gwella yn araf bach. Y Clerc i ddanfon cerdyn ar rhan y Cyngor.

**2. Datgan Diddordeb**
Cyng. Catrin Wager yn datgan diddordeb ar pwynt 10 o'r agenda – Adroddiad Partneriaeth Ogwen – aelod o staff Partneriaeth Ogwen.

**3. Materion Brys**
**Grant Terfynau Caeau Traddodiadol –** Y Clerc i gael ychwaneg o wybodaeth am y grant, a ystyried sut all y Cyngor helpu rheolwyr tir i gymeryd mantais o'r grant. Y Clerc i gysylltu â'r adran llwybrau yng Nghyngor Gwynedd i holi os oes modd iddyn nhw ddefnyddio'r grant i adfer terfynau traddodiadol o fewn yr ardal.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu unwaith eto, gyda chopi at y Cyngr. Rheinallt Puw ac Einir Williams, ond dim ymateb hyd yn hyn. Mae'r mater nawr yn ddifrifol, y Clerc i lythyru Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd.
**5.2** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog a Pant Glas – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.3** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Y Cyng. Paul Rowlinson – ar y gweill.
**5.4** YGC – Sherpa Shelters –Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgriniau gyda'r amserlen yn y llochesi metel presennol y mae'r Cyngor wedi'i osod yn ddiweddar. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.5** Llinellau Melyn – man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Tanybwlch, Rachub – ar y gweill – y Clerc.
**5.6** Ffordd Llwyn Bleddyn a Mynediad i fynwent Coetmor – y Clerc wedi danfon pryderon y Cyngor ymlaen ac wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad dioglewch ar y ffordd. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
**5.7** Llys Dafydd – Gwaith wedi cychwyn ar y wal gynnal, gyda'r gobaith bydd y gwaith yn gael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf.
**5.8** Nodwyd y Cyng. Walter Williams ei fod wedi derbyn cwyn am arwydd siop Penrhyn Pictures ar y stryd fawr, am ei fod yn uniaith Saesneg. Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion.
**5.9 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn –** Adroddwyd fod hi'n dywyll iawn ger tai Llidiart y Gwenyn. Y Clerc i edrych ar y cais cynllunio gwreiddiol, ac i gynnwys yr eitem ar yr agenda nesaf.
**5.10 Lon Bach Odro -**Adroddwyd y Cyng. Huw Jones fod angen torri'r coed ar hyd y llwybr hwn, ac bod y ffens a'r waliau cyfagos angen ei trwsio. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.11 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – Adroddwyd fod y Clerc methu gael hyd i waith papur gyda'r offer yma arno. Y Clerc i gael pris ar gyfer yr offer yma.
**5.12 Cyngor Gwynedd – Digwyddiad Ardal Ni 2035** – Cyngr. Walter Williams a Mary Jones wedi mynychu'r digwyddiad ar ran y Cyngor. Digwyddiad defnyddiol a diddorol iawn, ac yn gobeithio derbyn dogfen drafft o'r canlyniad erbyn mis Ionawr/Chwefror.
**5.13 Palmant Llwyn Bleddyn –** angen glanhau'r llwybr, y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

**6. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Nodwyd fod yr aelodau heb dderbyn y dogfennau o flaen llaw, ac felly y bydd angen cynnwys yr eitem hon ar yr agenda mis nesaf. Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Gadeirydd y pwyllgor cyllid, Cyng. Neville Hughes.

**7. Cae Chwarae Pantdreiniog**
Adroddwyd fod rhai aelodau wedi bod ar y safle yn ddiweddar i dynnu llun, a sylwyd fod rhai rhannau yn fwdlyd o dan draed. Cytunwyd bydd y Clerc yn gael pris am lawr rhisgl. Nodwyd y Clerc fod rhan o'r ffens wedi torri yn barod oherwydd fandaliaeth. Y Clerc wedi derbyn pris gan y contractwr - £45 + TAW – Cytunwyd y bydd y Clerc yn trefnu i'r ffens gael ei drwsio cyn gynted a phosib.

**8. CCTV Stryd Fawr**
Adroddwyd fod y Clerc wedi llunio adroddiad ar adborth yr ymgynghoriad a'r costau cysylltiedig, a fod y Cyngor yn hapus mewn egwyddor i fynd ymlaen gyda'r cynllun. Nodwyd fod £30,000 wedi ei glustnodi ar gyfer y cynllun hwn, felly os yw'r pris yn fwy na hyn, fydd angen ail gyflwyno'r eitem i'r Cyngor.

**9. Maes parcio Gerlan**
Nodwyd fod y tir mewn sylw wedi gael ei werthu i berchennog newydd. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams a'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod gyda'r perchennog newydd cyn gynted a bu'r modd.

**10. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Cylchredwyd yr ddogfen i'r Cyngor cyn y cyfarfod.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2022'
**11.1 Cais gan y Cyng. Rheinallt Puw – Lloches Bws Lon Newydd –** Cytunwyd y bydd yn syniad da gael lloches bws yma. Y Clerc i ofyn am caniatad gan Cyngor Gwynedd ac i dderyn dyfynbris am y gwaith.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0327/16/AC**

| | |
|---|---|
| Chwarel y Penrhyn | Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0336/16/MW**

| | |
|---|---|
| Chwarel y Penrhyn | Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0674/13/AC**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Ffarm Gerlan Ffordd Gerlan, Gerlan, | Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C18/1159/13/LL er galluogi dyluniadau tai diwygiedig<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |

**C22/0813/13/DT**

25 Allt Pen y Bryn, Bethesda

Dymchwel estyniad ac adeiladu to brig deulawr ynglwm ag estyniad to fflat yn y cefn.
**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag amodau.

**C22/0811/13/LL**

Clwb Pel Droed, Bethesda

Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C22/0929/13/AC**

1 Tan y Gaer, Carneddi

Cais i ddiwygio amod 7 o ganiatâd cynllunio C20/0339/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd a mynedfa er mwyn cydymffurfio a gofynion draenio dŵr budr/wyneb.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0951/13/DT**

4 Henbarc, Carneddi

Estyniad unllawr i gefn yr estyniad ynghyd ac ffenestr dormer newydd.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0901/13/LL**

38 Ffordd Tanybwlch

Addasu a newid defnydd modurdy presennol yn dŷ
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**12. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Martin Ryder | Gosod hysbysfwrdd Gorffwysfan | £280.00 |
| North Wales Fencing | Ffens Cae Chwarae Newydd Pantdreiniog | £5,802.00 |
| Cyngor Gwynedd | Toiledau Cyhoeddus | £4000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Amser Gofalwr - amrywiaeth | £424.80 |
| Partneriaeth Ogwen | Amser Gofalwr - amrywiaeth | £230.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at y Llyfrgell Cymunedol | £1,452.09 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £21,561.34 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal | £7,013.76 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £57.06 |
| John Wyn Jones | Cyflog Hydref | £397.80 |
| CThEM | TWE mis Hydref | £79.60 |